

Planhigyn y Niwl

Dim ond mewn cwm â'i gwmwl ei hun
y mae'r llysieuyn yn tyfu a all wella
twymyn teimlo'n ddryslyd.

Mae'n foddion mor brin
nes bod rhaid ei warchod
gan filwyr a hyfforddwyd i
feddwl yn glir. Liw nos, fe
welwch goelcerth y
gwylwyr yn ymladd eu
penbleth.

Yn y glaw, mae persawr planhigyn y niwl yn trechu'r
gorau, ac fe'u clywir yn wylo dros gwymp dinasoedd
yr ewyllys.

Gwyneth Lewis